



GWEITHFEYDD TRIN DŴR GWASTRAFF PEN-Y-BONT NEWYDDLLEN

Rhifyn 2
31 Mai 2024

Byddwch chi'n ymwybodol o'n newyddlen a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf (23 Mai) y bu digwyddiad llygru ar ran o afon Ogwr ger gweithfeydd trin dŵr gwastraff (GTDG) Pen-y-bont.

Ymddangosodd math o slwtsh du yn y rhan o'r afon (yn y cylch isod) sy'n troi'n Ystumllyn ond sy'n adlenwi gyda phob penllanw.



Ein hymchwiliadau

Ar ôl 1,200 awr o ymchwiliadau manwl, torri tyllau archwilio, archwiliadau CCTV, a gwaith sganio 3D ar bibellau a thanciau, **nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw ollyngiadau** na diffygion o bwys ar ein safle, yn yr asedau cysylltiedig nac yn y draeniau sy'n gysylltiedig â'r safle.

Yn ogystal, nid yw'r profion llifyn helaeth — lle mae llifyn yn cael ei roi i mewn i'r dŵr gwastraff i'w olrhain trwy'r broses a dod i hyd i ollyngiadau — wedi dod o hyd i unrhyw ollyngiadau ar y pibellwaith, yn y tanciau ar y safle nac ar y rhwydwaith carthffosiaeth sy'n gysylltiedig â'r safle. Defnyddiwyd dros 1,000 pot o lifyn yn ystod yr ymchwiliad, ond dylid nodi nad yw'r llifyn yma'n cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd.

Gwelwyd llifyn yn dod allan o bwynt rhyddhau'r gweithfeydd — h.y. lle mae'r dŵr gwastraff yn cael ei ryddhau trwy allfa i afon Ogwr ar ôl drin — a gwelwyd ychydig bach o aflwiad yn cyrraedd y sianel lle cofnodwyd y digwyddiad llygru gwreiddiol. Mae'n debyg bod hyn am fod y dŵr yn cael ei yrru i fyny i'r sianel gyda'r llanw, gan gario'r llifyn a silt o wely'r afon hefyd efallai. Mae'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn gweithredu ac yn rhyddhau fel y dylen nhw, ac yn cydymffurfio â'r holl drwyddedau perthnasol.

Beth am y gollyngiad?

Yn y pen draw, ffeindwyd fod y gollyngiad posibl ar y safle'n gysylltiedig â phibell dŵr daear nad yw'n gysylltiedig â'n gweithfeydd trin na'n rhwydwaith carthffosiaeth. Nododd ein harchwiliad o'r "slwtsh" yn y sianel lle cofnodwyd y digwyddiad llygru nad oedd yn gyson â microfioleg ein prosesau biolegol yn y gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth felly i olrhain y deunydd yn ôl i'n gweithfeydd trin.

Am na allwn ddod o hyd i lwybr o'n hasedau a'r sianel yma felly, mae ffynhonnell y llygredd a'n hymchwiliadau'n amhendant o hyd, a byddwn ni'n parhau i weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn hyn o beth.

Er y bu canfyddiadau'r ymchwiliadau'n amhendant, rydyn ni wedi cyflawni profion cynhwysfawr ar ansawdd y dŵr yn yr afon a'r dyfroedd ymdrochi. Mae'r canlyniadau wedi dangos na fu unrhyw effaith ar ansawdd y dŵr i lawr y llif o'r digwyddiad hwn, ac roedd y lefelau o amonia a chloriform yn is na'r lefelau mesuradwy. Mae'r data ar gyfer 24 a 25 Mai (cyn unrhyw law) yn dangos bod ansawdd dŵr yr afon a'r dyfroedd ymdrochi'n dda neu'n rhagorol. Yn ein set data ni, fe sylwon ni ar gynnydd nodedig mewn cloriform yn sgil digwyddiad glaw ar y 26ain, a oedd i'w weld yn effeithio ar lefelau'r cloriform i fyny'r llif o'n hallfa ni, ac ar ansawdd dŵr yr afon i lawr y llif o ganlyniad, sy'n dangos nad yw'r cynnydd yma'n gysylltiedig â'n gweithfeydd trin. Oherwydd natur y profion, mae'r canlyniadau diweddaraf hyd yn hyn ar gyfer 26 Mai am eu bod yn cymryd tua 4 diwrnod i'w dadansoddi.

Rhaid nodi bod sawl ffactor yn dylanwadu ar ansawdd dŵr — nid dim ond gweithrediadau Dŵr Cymru — ac mae'r rhain yn cynnwys dŵr ffo o strydoedd, ffyrdd a thir amaeth, yn ogystal â ffynonellau eraill.

Rydyn ni wedi gwneud popeth y gallwn ni i fod yn agored ac yn dryloyw yn ein hymchwiliadau, ac wedi rhannu gwybodaeth â'n rheoleiddwr amgylcheddol CNC ar bob cam o'r ffordd. Mae CNC yn cyflawni eu gwaith samlo eu hunain, a nhw yn y pen draw sy'n gyfrifol am bennu dosbarthiad safonau ansawdd dŵr.

Os oes unrhyw gwestiynau pellach gennych, croeso i chi gysylltu â sewerage.services@dwrwymru.com

